PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod o Bell, 9 Mehefin, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfrey, W. Gilligan, E.J. Goodjohn, N.P. Hodges, J. Lynch Wilson, N.B. Marshallsea, J.M. Norman, H.M. Payne ac E. Penn..

Aelodau cyfetholedig: Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig), L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd) a G. Scott (Addysg Gymraeg).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), G.D.D. Carroll a G. John.

EITEM AGENDA 1. PENODI IS-GADEIRYDD –

PENDERFYNWYD – BOD y Cynghorydd H.M. Payne yn cael ei bonodi'n Is-Gadeirydd y Pwyllgor Craffu am y Flwyddyn Gyngor.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr W.A. Hennessy, R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru) a I. Cramb (Fforwm Ieuenctid y Fro).

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 5. CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT –

CYTUNWYD – BOD y cyflwyniad rhagarweiniol yn cael ei nodi.

EITEM AGENDA 6. ADRODDIAD MONITRO CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL 2020-2021 (CYF) –

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad atodol fel a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Adroddiad Monitro Cydraddoldeb Blynyddol 2020 - 2021.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried adroddiad y Cabinet yn nodi ffocws gweithgarwch y Cyngor yn y dyfodol wrth gyflawni Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24.

EITEM AGENDA 7. SUT MAE YSGOLION Y FRO WEDI DEFNYDDIO'R GRANT RECRIWTIO, ADENNILL, CODI SAFONAU: RHAGLEN CYFLYMU DYSGU I GEFNOGI DYSGWYR (CDS) –

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canfyddiadau'r adroddiad ynghylch defnydd ac effaith y Grant Recriwtio, Adennill, Codi Safonau (RACS) yn ysgolion Bro Morgannwg.

(2) BOD y gefnogaeth a ddarperir gan ysgolion i gefnogi dysgwyr sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) O ystyried cynnwys yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad atodol mewn perthynas â defnydd presennol ac effaith y grant RACS gan gynnwys astudiaethau achos o sut mae'r grant yn cael ei ddefnyddio mewn ysgolion yn ogystal â'r cymorth cyffredinol ac wedi'i dargedu y mae ysgolion wedi'i ddarparu ar gyfer disgyblion sydd wedi cael eu heffeithio fwyaf gan y pandemig.

EITEM AGENDA 8. TRACIO ARGYMHELLION CRAFFU 4YDD CHWARTER 2021/22 AC ATODLEN RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL FLYNYDDOL ARFAETHEDIG 2022/23 (PW) –

ARGYMHELLWYD –

(1) CYTUNO ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) NODI Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Cabinet ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad C i'r adroddiad, yng nghyd-destun Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant 2022/23.

(3) NODI Rhaglen Gwaith Cychwynnol y 4ydd Chwarter 2021/22 sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad.

(4) CYMERADWYO Atodlen Rhaglen Gwaith Cychwynnol Flynyddol arfaethedig y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 sydd ynghlwm yn Atodiad D i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Parhau i olrhain argymhellion y Pwyllgor yn effeithiol.

(2) Alinio ag adran 7.6 o Brotocol Rolau a Chyfrifoldebau'r Cabinet a Chraffu.

(3&4) Gan ystyried cynnwys y Rhaglen Gwaith Cychwynnol ddrafft (Atodiad D) a thrafodaeth ddilynol yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 9. MATER YR OEDD Y CADEIRYDD WEDI PENDERFYNU EI FOD YN FATER BRYS –

PENDERFYNWYD – Y dylid ystyried y mater canlynol yr oedd y Cadeirydd wedi penderfynu ei fod yn fater brys am y rheswm a roddwyd o dan bennawd y cofnodion.

EITEM AGENDA 9(i) CYNRYCHIOLAETH O'R FFORWM CYLLIDEB YSGOLION A DERBYN (CDS) –
(Ar fyrder oherwydd yr angen i gadarnhau cynrychiolydd(wyr) y Gyllideb a'r Fforwm Derbyn perthnasol fel y gellir trefnu cyfarfodydd Fforwm yn y dyfodol cyn gynted â phosibl ar gyfer tymor newydd y Cyngor)

PENDERFYNWYD –

(1) PENODI'R Cynghorydd Emma Goodjohn yn Gynrychiolydd y Pwyllgor Craffu ar y Fforwm Cyllideb Ysgiolion.

(2) PENODI'R Cynghorydd Naomi Marshallsea yn Gynrychiolydd y Pwyllgor Craffu ar y Fforwm Derbyn i Ysgolion.

Rheswm dros yr argymhellion

(1&2) Sicrhau bod y Ffrowm yn cynnwys Aelod o'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn ogystal ag Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg.